




Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Swyddfa Cronfeydd y Llys

**Ymgynghoriad ar y broses
weithredu ar gyfer cymhwysio
terfyn amser o 30 mlynedd ar
gyfer hawliadau ar y gronfa
Balansau heb eu Hawlio**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 07 Gorffennaf 2023

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 31 Awst 2023



[leave this page blank – back of cover]



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Swyddfa Cronfeydd y Llys

Ymgynghoriad ar y broses weithredu ar gyfer cymhwyso
terfyn amser o 30 mlynedd ar gyfer hawliadau ar y gronfa
Balansau heb eu Hawlio

**Ymgynghoriad a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael
yn <https://consult.justice.gov.uk/court-funds-office/unclaimed-balances-fund-consultation>**

Gwybodaeth am yr ymgynghoriad

- At:** Anelir yr ymgynghoriad hwn at ddefnyddwyr Swyddfa Cronfeydd y Llys, y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, y proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth, helwyr etifeddion a'r cyhoedd yn gyffredinol sydd â diddordeb mewn Balansau heb eu Hawlio a ddelir fel arian mewn llys.
- Hyd:** O 07/07/23 hyd at 31/08/23
- Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat arall) i:** OAG Strategy Team
Ministry of Justice
10 South Colonnade
3rd Floor, Post Point 14
Canary Wharf
London E14 4PU
E-bost: cfoubconsultation@justice.gov.uk
- Sut i ymateb:** Mae'n well gennym eich bod yn cwblhau'r ymgynghoriad ar-lein ar <https://consult.justice.gov.uk/court-funds-office/unclaimed-balances-fund-consultation> neu'n anfon ffurflen adborth yr ymgynghoriad wedi'i llenwi atom drwy e-bost at cfoubconsultation@justice.gov.uk.
Neu anfonwch eich ymateb erbyn 31 Awst 2023 at:
OAG Strategy Team
Ministry of Justice
10 South Colonnade
3rd Floor, Post Point 14
Canary Wharf
London E14 4PU
E-bost: cfoubconsultation@justice.gov.uk
- Papur ymateb:** Cyhoeddir ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn maes o law yn: <https://consult.justice.gov.uk/>

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Cefndir	4
Polisi Presennol ar Falansau heb eu Hawlio	4
Fframwaith Deddfwriaethol	6
Rheoli'r Gronfa Balansau heb eu Hawlio – y Diweddaraf am y Polisi	7
Cwmpas y Newid Polisi	7
Beth rydym wedi'i wneud hyd yma	7
Ble mae angen i ni fynd gam ymhellach – yr ymgynghoriad hwn	7
Holiadur	9
Gwybodaeth amdanoch chi	11
Manylion cyswllt/Sut i ymateb	13
Cwynion neu sylwadau	13
Copiau ychwanegol	13
Cyhoeddi ymateb	13
Grwpiau cynrychioliadol	14
Cyfrinachedd	14
Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg	15
Asesiad effaith	15
Cydraddoldeb	15
Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg	15
Egwyddorion ymgynghori	16

[leave this page blank – back of contents page]

Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn nodi'r ymgynghoriad ar sut y bydd terfyn amser ar gyfer hawliadau ar gronfa Balansau heb eu Hawlio yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r diweddariadau arfaethedig i Reolau Cronfeydd y Llys 2011. Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu at ddefnyddwyr gwasanaethau Swyddfa Cronfeydd y Llys, y farnwriaeth, gwasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd, cwmnïau helwyr etifeddion neu aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb neu farn ar y pwnc a drafodir yn y papur hwn yng Nghymru a Lloegr. Bydd y papur ymgynghoriad yn para am 8 wythnos a bydd yn cau ar 31 Awst 2023.

Mae fersiwn Saesneg o'r papur ymgynghori hwn ar gael yn

<https://www.gov.uk/government/consultations/a-consultation-on-the-implementation-process-for-applying-a-30-year-time-limit-for-claims-on-unclaimed-balances-fund>

Cefndir

Mae Swyddfa Cronfeydd y Llys (CFO) yn gweinyddu cronfeydd a freiniwyd yng Nghyfrif Cyffredinol yr Uwch Lysoedd o dan adran 38 Deddf Gweinyddu Cyfiawnder 1982 ac mae'n gwneud hynny yn ddarostyngedig i reolau (Rheolau Cronfeydd Llys 2011 ar hyn o bryd (O.S. 2011/1734) a wnaed o dan is-adrannau (7) i (9) yr adran honno. Yn yr un modd ag unrhyw sefydliad ariannol, mae'r CFO yn cadw cronfeydd segur y cyfeirir atynt yn yr ymgynghoriad hwn fel "Balansau heb eu Hawlio". Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth ar gyfer cadw cronfeydd sy'n cael eu talu i'r llys, ond nad ydynt yn cael eu hawlio, ac yn absenoldeb person sy'n hawlio cyllid o'r fath, byddant yn aros yn y CFO am byth. Mae hyn yn wahanol i broses Bona Vacantia¹ Adran Gyfreithiol y Llywodraeth lle mae ystadau, lle nad oes buddiolwyr hysbys, yn cael eu fforffedu i'r Goron 30 mlynedd ar ôl dyddiad marwolaeth yr ymadawedig.

Polisi Presennol ar Falansau heb eu Hawlio

Mae Balansau heb eu Hawlio (UB) yn gronfeydd segur lle nad oes modd dod o hyd i'r buddiolwr, nad yw'n hawlio'r arian neu os nad yw'n hysbys. Ar bwynt penodol pan na fu unrhyw drafodion ar y cyfrif ar wahân i gredydu llog yn awtomatig, fel arfer 10 mlynedd, ystyrir eu bod wedi mynd yn segur os, ar ôl i Swyddfa Cronfeydd y Llys wneud ymdrechion

¹Mae 'Bona Vacantia' yn golygu nwyddau gwag a dyma'r enw a roddir i eiddo di-berchen, sy'n cael ei drosglwyddo i'r Goron yn ôl y gyfraith. Ffynhonnell - <https://www.gov.uk/government/organisations/bona-vacantia>

i olrhain y buddiolwr, bydd y chwiliad yn aflwyddiannus. Pan fydd y chwiliadau hyn yn aflwyddiannus, bydd yr arian yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Balansau heb eu Hawlio.

Mae'r pwynt pan fydd cronfa'n mynd yn "segur" yn amrywio yn ôl y math o gyfrif, gyda gwiriadau ar waith i olrhain buddiolwyr sydd hefyd yn wahanol o un math o achos i'r llall. Er enghraifft:

- 1. Cyfrifon plant:** Pan fydd arian yn cael ei freinio i'r Cyfrifydd Cyffredinol ar ran plentyn, mae gan y plentyn tan ei ben-blwydd yn 19 oed i hawlio taliad allan, ac ar ôl hynny bydd yr arian yn cael ei symud i gyfrif UB. Mae'r drefn fanwl fel a ganlyn. Anfonir llythyr cychwynnol yn gwahodd y plentyn i hawlio ei arian bedair wythnos cyn i'r plentyn gyrraedd 18 oed, ac os na dderbynnir hawliad o fewn 3 mis i'r plentyn droi'n 18 oed, anfonir llythyr wedyn i'r cyfeiriad sydd ar y cyfrif. Anfonir rhagor o lythyrau ar ôl 6 mis a 9 mis os na cheir hawliad, yn gofyn i'r plentyn wneud cais am ei arian. Os nad ydyn nhw'n gwneud cais erbyn iddyn nhw gyrraedd 19 oed ac nad ydyn nhw wedi rhoi unrhyw resymau pam nad ydyn nhw wedi gwneud hynny, bydd y cyfrif yn cael ei drosglwyddo i UB. Os nad oes cyfeiriad presennol, neu ar unrhyw adeg yn y broses, daw llythyr yn ôl fel "cyfeiriad anhysbys", gwneir ymholiadau drwy'r llys a chyfreithwyr sy'n ymwneud â'r achos i ddod o hyd i gyfeiriad presennol y plentyn. Os bydd yr ymholiadau hynny'n llwyddiannus, bydd y broses yn dechrau eto drwy anfon llythyrau ymholi ar ôl 3, 6 a 9 mis (ar ôl y llythyr cyntaf) yn gwahodd y plentyn i hawlio. Os na ellir dod o hyd i gyfeiriad, mae'r gronfa'n parhau'n "fyw" beth bynnag tan ben-blwydd y plentyn yn 19 oed.
- 2. Adneuo Statudol:** Yn yr achosion hyn, bydd yr adneuwyr yn chwilio am y buddiolwr cyn adneuo, a dim ond os bydd y chwiliad hwnnw'n aflwyddiannus neu os bydd y cleient yn gwrthod ymgysylltu y daw'r arian i Swyddfa Cronfeydd y Llys. Dim ond os yw'r llys perthnasol yn fodlon bod yr adneuwyr wedi cynnal chwiliadau digonol ac na ellir dod o hyd i'r buddiolwr neu os yw'n gwrthod ymgysylltu, y caiff arian ei adneuo. Ni chaiff unrhyw chwiliadau pellach eu cynnal gan Swyddfa Cronfeydd y Llys ar ôl eu derbyn, a chaiff yr arian ei drosglwyddo i gyfrif UB ar unwaith.
- 3. Achosion eraill:** Gyda phob math arall o gyfrif, bydd yr arian yn dod yn gymwys i'w drosglwyddo i'r cyfrif UB os na fu unrhyw drafodion, ar wahân i gredydu llog yn awtomatig, ers 10 mlynedd. Ar y pwynt hwn, cynhelir chwiliadau drwy'r llys a chyfreithwyr sy'n ymwneud â'r achos i geisio olrhain buddiolwyr. Os bydd y chwiliadau hyn yn aflwyddiannus, bydd y cyfrif yn cael ei drosglwyddo i'r cyfrif UB.

Mae llawer o resymau pam fo cronfeydd cleientiaid CFO yn mynd yn segur, ond fel arfer y rheswm am hyn yw na ellir olrhain y cleient ar ôl gwneud pob ymdrech resymol. Yr achos mwyaf cyffredin yw pan fydd amgylchiadau'r cleient wedi newid, ac nad yw Swyddfa Cronfeydd y Llys wedi cael gwybod (e.e. mae'r cleient wedi marw, wedi newid cyfeiriad) neu lle mae'r arian yn cael ei adael heb ei hawlio.

Fframwaith Deddfwriaethol

Rheol 36 Rheolau Cronfeydd y Llys 2011

Mae rheol 36 yn caniatáu i'r Cyfrifydd Cyffredinol drosglwyddo arian i gyfrif Balansau heb eu Hawlio:

“36.—(1) Gall y Cyfrifydd Cyffredinol drosglwyddo unrhyw gronfeydd heb eu hawlio mewn llys i gyfrif cronfeydd heb eu hawlio.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), ymdrinnir cronfa yn y llys fel pe bai heb ei hawlio os:

(a) nad ymdriniwyd ag ef ers deng mlynedd ar wahân i:

(i) gael ei greddydu â llog neu ddifidendau cronedig; neu

(ii) ddelio'n orfodol â gwarannau; neu

(b) bod y Cyfrifydd Cyffredinol, ar unrhyw adeg, wedi ei fodloni bod pob cam rhesymol wedi ei gymryd i olrhain y person sydd â hawl i'r gronfa yn y llys ac na ellir olrhain y person hwnnw.

(3) Pan fo cronfa mewn llys yn cael ei dal ar ran plentyn a bod dyddiad geni'r plentyn yn hysbys, ni fydd paragraff (2) (a) yn gymwys tan ben-blwydd y plentyn yn 18”

Mae'r ddeddfwriaeth y gwneir y rheolau oddi tani (Deddf Gweinyddu Cyfiawnder 1982) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cronfeydd hyn gael eu dal am byth. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu ag egwyddor Bona Vacantia, pan fo rhywun yn marw heb ewyllys a heb deulu hysbys, mae ei eiddo'n mynd i'r Goron 30 mlynedd ar ôl dyddiad y farwolaeth.

Rheoli'r Gronfa Balansau heb eu Hawlio – y Diweddaraf am y Polisi

Cwmpas y Newid Polisi

Os yw cyfrif Balans heb ei Hawlio wedi bod yn segur am 30 mlynedd neu fwy, gellir dileu unrhyw hawliad iddo yn awr (yn rhinwedd y diwygiad i Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder 1982 a eglurir isod). O ganlyniad, mae'r Cyfrifydd Cyffredinol yn bwriadu newid Rheolau Cronfeydd y Llys i nodi sut y bydd unrhyw drosglwyddiad yn cael ei reoli. Mae cymhwyso terfyn amser ar gyfer hawliadau ar gronfa UB yn gyfle sylweddol i ddatgloi symiau o arian heb ei hawlio y gellid eu defnyddio er budd y cyhoedd. Byddai hyn yn golygu y byddai pob cronfa sydd wedi mynd heibio terfyn amser, er enghraifft y rheini sydd wedi bod yn segur ers 30 mlynedd a mwy, yn cael eu priodoli a'u hildio i'r Trysorlys. Mae hyn yn adlewyrchu'r egwyddor sy'n tanlinellu Bona Vacantia.

Mae cost ariannol i'r trethdalwr sy'n gysylltiedig â rheoli cyfrifon segur yn barhaus gan Swyddfa Cronfeydd y Llys. Bydd terfyn amser ar gyfer hawliadau ar gronfa UB yn helpu i leihau'r baich ariannol ar y trethdalwr o ran rheoli cronfeydd segur.

Beth rydym wedi'i wneud hyd yma

Fel rhan o'r Bil Cyllid a gyflwynwyd i'r Senedd ym mis Mawrth 2023, mae'r Llywodraeth wedi cynnwys diwygiad i Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder 1982 i osod terfyn amser ar arian a dalwyd i Swyddfa Cronfeydd y Llys ar gyfer hawliadau sifil sy'n dal yn segur am 30 mlynedd neu fwy. Ar ôl 30 mlynedd, bydd yr hawl i hawlio yn cael ei dileu a bydd yr arian yn cael ei ddychwelyd i'r Trysorlys. Mae'r diwygiad hwn i Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder 1982 yn mynd drwy gymeradwyaeth y Senedd a disgwylir iddo gael Cydsyniad Brenhinol erbyn haf 2023 i ddod yn gyfraith. Unwaith y bydd Cydsyniad Brenhinol wedi'i roi, bydd Rheolau Cronfeydd y Llys 2011 yn cael eu diwygio i gyflwyno'r mecanweithiau ar gyfer gweithredu'r newid.

Ble mae angen i ni fynd gam ymhellach – yr ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i'r cyhoedd ac mae'n ceisio casglu barn ynghylch sut y bydd y Cyfrifydd Cyffredinol yn rheoli'r broses o gymhwyso terfyn amser ar arian a dalwyd i Swyddfa Cronfeydd y Llys ar gyfer hawliadau sifil nad ydynt yn cael eu hawlio am 30 mlynedd neu fwy a dychwelyd yr arian i'r Trysorlys.

Byddwn yn ystyried eich barn a'ch adborth yn ofalus ar ein newidiadau polisi arfaethedig ar y gronfa Balansau heb eu Hawlio. Byddwn hefyd yn parhau i ymgynghori â phartneriaid cyfiawnder sifil fel y Llys Gwarchod, Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Fawrhydi, eu hasiantaethau, y farnwriaeth, ac ystod o weithwyr proffesiynol.

Bydd y safbwyntiau a gesglir drwy'r ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio'r newidiadau mewn is-ddeddfwriaeth sydd wedi'u cynllunio ar gyfer mis Rhagfyr 2023.

Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn y papur ymgynghori hwn. Rhowch dystiolaeth ansoddol a mesuradwy i gefnogi eich safbwyntiau.

- 1. Bwriad y Cyfrifydd Cyffredinol yw trosglwyddo i'r Trysorlys yr holl gyfrifon Balansau heb eu Hawlio sydd wedi bod yn segur am 30 mlynedd a mwy gan ddechrau o fis Ebrill 2024. Rydym yn bwriadu cyhoeddi dyddiad gweithredu'r tyniad cyntaf gydag o leiaf dri mis o rybudd a fydd, yn ein barn ni, yn ddigonol. Ydych chi'n cytuno â'r cyfnod hysbysu?**
- 2. Mae Swyddfa Cronfeydd y Llys yn cynnal chwiliadau cymesur i ad-dalu cronfeydd i'w buddiolwyr. Gwneir hyn drwy gysylltu â buddiolwyr yn y cyfeiriad hysbys diwethaf. Mae'r archwiliadau sydd ar waith i olrhain buddiolwyr yn amrywio o un math o achos i'r llall, fel a ganlyn:**
 - a. Ar gyfer cyfrifon plant, anfonir llythyr cychwynnol yn gwahodd y plentyn i hawlio ei arian oddeutu 4 wythnos cyn ei ben-blwydd yn 18 oed, ac os na cheir hawliad dilys, anfonir llythyr wedyn i'r cyfeiriad sydd ar y cyfrif dri mis ar ôl i'r plentyn gyrraedd 18 oed, ac eto wedi 6 mis a 9 mis yn gofyn i'r plentyn wneud cais am ei arian. Os nad ydyn nhw'n gwneud cais erbyn eu bod yn 19 oed ac nad ydyn nhw wedi rhoi unrhyw resymau pam nad ydyn nhw wedi gwneud hynny, bydd y cyfrif yn cael ei drosglwyddo i Falansau heb eu Hawlio. Os nad oes cyfeiriad presennol, neu ar unrhyw adeg yn y broses, daw llythyr yn ôl fel "cyfeiriad anhysbys", gwneir ymholiadau drwy'r llys a chyfreithwyr sy'n ymwneud â'r achos i ddod o hyd i'r cyfeiriad presennol. Os bydd yr ymholiadau hynny'n llwyddiannus, bydd y broses yn dechrau eto drwy anfon llythyrau ymholi ar ôl 3, 6 a 9 mis (ar ôl y llythyr cyntaf) yn gwahodd y plentyn i hawlio. Os na ellir dod o hyd i gyfeiriad, mae'r gronfa'n parhau'n "fyw" beth bynnag tan ben-blwydd y plentyn yn 19 oed.
 - b. Yn achos adneuo statudol, bydd yr adneuwyr yn chwilio am y buddiolwr cyn adneuo, a dim ond os bydd y chwiliad hwnnw'n aflwyddiannus neu os bydd y cleient yn gwrthod ymgysylltu y daw'r arian i Swyddfa Cronfeydd y Llys. Dim ond os yw'r llys perthnasol yn fodlon bod yr adneuwyr wedi cynnal chwiliadau digonol ac na ellir dod o hyd i'r buddiolwr neu os yw'n gwrthod ymgysylltu, y caiff arian ei adneuo. Ni chaiff unrhyw chwiliadau pellach eu cynnal gan Swyddfa Cronfeydd y Llys ar ôl eu derbyn, a chaiff yr arian ei drosglwyddo i gyfrif UB ar unwaith.

- c. Arall - gyda phob math arall o gyfrif, bydd yr arian yn dod yn gymwys i'w drosglwyddo i'r cyfrif UB os na fu unrhyw drafodion, ar wahân i gredydu llog yn awtomatig, ers 10 mlynedd. Ar y pwynt hwn, cynhelir chwiliadau drwy'r llys a chyfreithwyr sy'n ymwneud â'r achos i geisio olrhain buddiolwyr. Os bydd y chwiliadau hyn yn aflwyddiannus, bydd y cyfrif yn cael ei drosglwyddo i'r cyfrif UB.

Ydych chi'n cytuno bod y chwiliadau a nodir uchod yn gymesur ac yn ddigonol?

- 3. **Mae cronfa ddata chwilio ar gyfer Balansau heb eu Hawlio ar gael yn <https://www.gov.uk/find-court-money> i'r cyhoedd ac unrhyw bartïon eraill â buddiant ei defnyddio. Mae'r wybodaeth a gedwir yn cael ei diweddarau ar ddechrau pob mis. Rydym yn bwriadu cyhoeddi dyddiad dechrau cyfnod segur pob cyfrif ar y dudalen Balansau heb eu Hawlio ar <https://www.gov.uk/find-court-money>.**
 - a. **Cyfrifoldeb yr hawlydd fydd penderfynu ar y dyddiad terfyn o 30 mlynedd ar gyfer gwneud hawliad. Ydych chi'n cytuno bod hwn yn ddull rhesymol?**
 - b. **Mae modd chwilio'n gyhoeddus drwy gronfa ddata Balansau heb eu Hawlio yn ôl allweddeiriau a/neu ystod dyddiadau. A yw hyn yn ddigon o gyhoeddusrwydd i gronfa ddata Balansau heb eu Hawlio?**
- 4. **Nid ydym yn rhagweld y bydd y newid hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar unigolion neu fusnesau gan eu bod yn ymwneud ag achosion lle nad yw cleientiaid wedi hawlio eu balansau ac nad oes modd eu holrhain. Ydych chi'n ystyried eich bod chi neu eich busnes yn cael eich effeithio'n andwyol o ganlyniad i'r newid hwn? Rhowch dystiolaeth ansoddol a mesuradwy i gefnogi eich barn.**
- 5. **A ydych yn cytuno ein bod wedi nodi'n gywir hyd a lled yr effeithiau ar gydraddoldeb o dan bob un o'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn? Rhowch resymau a thystiolaeth o effeithiau pellach ar gydraddoldeb os ydych yn credu fel arall.**

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

Gwybodaeth amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i gyflwyno gwybodaeth amdanoch chi

Enw llawn	
Teitl swydd neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati.)	<ul style="list-style-type: none">▪ Academyddion▪ Cymdeithasau▪ Cyfreithwyr▪ Adrannau/asiantaethau'r llywodraeth (e.e. y Farnwriaeth, y Llys Gwarchod, GLITEF)▪ Aelod o'r cyhoedd▪ Heliwr Etifeddion▪ Cyrff a mudiadau gwirfoddol<ul style="list-style-type: none">○ Os ydych chi, sut yw'r ffordd orau o ddisgrifio eich mudiad (e.e. cenedlaethol, lleol, cymunedol, gan ac ar gyfer)?▪ Arall
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech i ni gydnabod bod eich ymateb wedi ein cyrraedd, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych chi'n cynrychioli grŵp, rhowch enw'r grŵp hwnnw i ni, os gwelwch yn dda, gyda disgrifiad cryno o'r bobl neu'r mudiadau rydych yn eu cynrychioli.

Ymgynghoriad ar y broses weithredu ar gyfer cymhwysio terfyn amser o 30 mlynedd ar gyfer hawliadau ar y gronfa
Balansau heb eu Hawlio

Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Byddai'n well gennym pe baech yn cwblhau'r ymgynghoriad ar-lein ar <https://consult.justice.gov.uk/court-funds-office/unclaimed-balances-fund-consultation> neu anfonwch ffurflen adborth yr ymgynghoriad wedi'i llenwi atom drwy e-bost at cfoubconsultation.justice.gov.uk.

Neu anfonwch eich ymateb erbyn 31 Awst 2023 i:

OAG Strategy Team
Ministry of Justice
Office of the Accountant General
3rd Floor, Post Point 14
10 South Colonnade
Canary Wharf
London E14 4PU

E-bost: cfoubconsultation@justice.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

Copïau ychwanegol

Mae rhagor o gopïau papur o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk>.

Gellir gofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau gwahanol oddi wrth cfoubconsultation@justice.gov.uk.

Cyhoeddi ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn maes o law. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi disgrifiad cryno o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i ni drin yr wybodaeth a rowch i ni'n gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol ar waith y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae hwn, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud â dyletswyddau i gadw cyfrinachedd. Yng ngoleuni hyn, byddai'n help i ni petaech yn esbonio pam rydych o'r farn bod yr wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y gallwn gadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried, ynddo'i hun, yn rhwymol gan y Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partion.

Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

Asesiad effaith

Nid oes Asesiad o Effaith wedi'i baratoi gan nad yw'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar y polisi ei hun, ond yn hytrach sut y caiff ei gyflwyno ac er mwyn cael cadarnhad ynghylch yr amodau segurddod y mae Swyddfa'r Cyfrifydd Cyffredinol yn eu defnyddio.

Cydraddoldeb

Mae Asesiad Cydraddoldeb i gefnogi'r ymgynghoriad hwn wedi cael ei baratoi. Gweler yr Asesiad Cydraddoldeb yn Atodiad A.

Ein hasesiad yw nad yw'r polisi'n gwahaniaethu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol o fewn ystyr Deddf 2010, gan ei fod yn berthnasol yn yr un ffordd i bob unigolyn, ni waeth beth yw eu nodweddion gwarchoddedig; ac nid yw'n cael ei ystyried yn debygol o arwain at unrhyw anfanteision penodol i ddeiliaid cyfrif sydd â nodweddion gwarchoddedig. Rydym hefyd yn gofyn am ymateb fel rhan o'r ymarfer ymgynghori hwn os oes addasiadau posibl y dylem eu hystyried i liniaru unrhyw effaith annisgwyl.

Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Mae fersiwn Cymraeg o'r papur ymgynghori hwn a'r Asesiad Cydraddoldeb ar gael yn <https://www.gov.uk/government/consultations/a-consultation-on-the-implementation-process-for-applying-a-30-year-time-limit-for-claims-on-unclaimed-balances-fund> .

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion a ddylai gael eu mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi cael eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

[Please don't delete the section break beneath this text.]

[leave blank – inside back cover]



© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i:
nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.